Tasg 1

# Ffeil-o-ffaith Goleudai – o Fôn i Fynwy!

Wrth gwrs fe gei di gerdded ar hyd fy llwybr,
Cei fynd lle y mynni ar fy nhir.
Wrth gwrs fe gei di gasglu 'mlodau harddaf,
Dim ond i ti addo dweud y gwir.
Wrth gwrs fe gei di gerdded i fy mwthyn,
Cei gynnau y tân a hwylio'r te.
Wrth gwrs fe gei di groeso ar fy aelwyd,
Dim ond i ti esbonio be' 'di be.

*Dyma gân a achubwyd o donnau y moroedd*
*Fe'i gwelwyd yno'n boddi gan geidwad y goleudy*
*Fe'i clywodd yn gweiddi, 'A wnei di f'achub i?'*
*Cân a oedd yn llithro rhwng muriau llaith anghofio*
*Ceidwad y goleudy ydwyf i.*

Wrth gwrs fe gei di weddi wrth fy allor
Rhoddaf glustiau fy Nuw yn eiddo i ti
Wrth gwrs cei fedyddio dy blant yn nŵr fy ffynon
Dim ond i ti ddysgu 'ngharu i.

*Dyma gân a achubwyd o donnau y moroedd*
*Fe'i gwelwyd yno'n boddi gan geidwad y goleudy*
*Fe'i clywodd yn gweiddi, 'A wnei di f'achub i?'*
*Cân a oedd yn llithro rhwng muriau llaith anghofio*
*Ceidwad y goleudy ydwyf i.*

*Ceidwad y goleudy ydwyf i.*

*Emyr Huws Jones*

http://www.gtleisure.co.uk/welshsongs/ceidwad.htm

## Dyddiadur Tomos Howell, Ceidwad Goleudy y Smalls ar ddechrau'r 19eg ganrif

*7 Chwefror 1801*

*Diwrnod stormus arall yma ar y Smalls. Mae'r glaw a'r gwynt wedi bod yn chwipio'r creigiau o gwmpas y goleudy ers wythnos nawr. Mae Tomos Griffiths a minnau'n trio gwneud ein gorau i gadw'r golau ynghynn ddydd a nos. Dydy Tomos ddim wedi bod yn teimlo'n dda iawn ers diwrnod neu ddau. Rhywbeth y mae e wedi'i fwyta, falle. Gyda'r tywydd mor wael, rhaid i ni gadw'r llongau draw.*

*10 Chwefror 1801*


*Methodd Tomos â chodi o'i wely heddiw. Doedd e ddim yn teimlo'n dda o gwbl. Mae'n edrych yn welw ac yn teimlo'n wan. Er i mi drio tynnu sylw ambell long sy'n pasio a thrio'u cael nhw i ddod i'w helpu, mae'r tonnau mawr yn dal i'w cadw nhw draw. Mae'n rhaid i fi ofalu am y goleudy ar fy mhen fy hun.*

*15 Chwefror 1801*

*Wedi blino'n lân heddiw. Heb gysgu llawer ers i Tomos fynd yn sâl, ac mae'n dal i waethygu. Fe wnaeth un llong o Aberdaugleddau ei gorau i lanio ar yr ynys brynhawn ddoe, ond fe gododd y gwynt unwaith eto. Allwn ni ddim cario ymlaen fel hyn.*

*18 Chwefror 1801*

*Trychineb heddiw. Pan es i i mewn i weld Tomos ben bore, roedd golwg ryfedd arno. Roedd e'n wyn fel y galchen ac yn oer, mor oer. Oedd, roedd e wedi marw. Roedd e'n gorff yn y gwely. Ond â'r tywydd mor wael, does dim gobaith cael help o hyd.*



19 Chwefror 1801

Wedi bod yn fflachio'r golau ac yn codi baneri i drio tynnu sylw'r cychod sy'n pasio. Does dim llawer arall alla i wneud. Mae Tomos yn dal yn ei wely. Dwi'n gwybod mai'r arfer yn y sefyllfa hon yw rhoi corff marw yn y môr, ond gan mai dim ond Tomos a fi sydd yma, a bod pawb yn gwybod ein bod ni'n mynd ar nerfau'n gilydd weithiau, efallai y bydd rhywrai'n amau 'mod i wedi'i lofruddio. Mae'n rhaid i mi gadw'r corff i bawb gael gweld nad yw hynny'n wir.

A beth ddigwyddodd wedyn, meddech chi? Wel, wedi rhai wythnosau eto, fe lwyddodd cwch i gyrraedd y Smalls a chafodd Tomos Howell help o'r diwedd. Erbyn hynny, roedd Tomos Howell wedi adeiladu arch i ddal corff Tomos Griffiths er mwyn gallu ei gadw y tu allan i'r goleudy wrth i'r corff ei hunan ddirywio. Ond cafodd y profiad effaith ofnadwy ar Tomos Howell, wrth iddo weld y corff yn ei arch tu allan bob dydd.

Ar ôl hyn, daeth rheol bod rhaid cael tri cheidwad i ofalu am bob goleudy.